**GWEITHDREFNAU GWEITHIO AR EICH PEN EICH HUN**

Mae'r Corff Llywodraethu'n ymrwymedig i sicrhau bod staff, gwirfoddolwyr a chontractwyr yn mwynhau amgylchedd gwaith diogel. Cydnabyddir bod achlysuron pan fydd angen i staff addysgu, cefnogi, gweinyddol, y tir a glanhau weithio ar eu pennau eu hunain neu mewn sefyllfaoedd ynysig, neu maent yn dewis gwneud hynny. Fodd bynnag, gall hyn gyflwyno risgiau ar gyfer gweithgaredd gwaith nad yw fel arfer yn beryglus.

Diffinnir gweithiwr sy'n gweithio ar ei ben ei hun fel aelod o staff sy'n gweithio heb oruchwyliaeth uniongyrchol yn adeilad yr ysgol a'i diroedd. Gall y rhain gynnwys athrawon, staff gweinyddol, staff cysylltiol, staff Cyfleusterau, staff TG, glanhawyr, y gofalwr a chontractwyr. (Nid yw hon yn rhestr gynhwysfawr.)

**Categorïau o weithwyr sy'n gweithio ar eu pennau eu hunain**

Yn Ysgol Gymraeg Parc y Tywyn, bydd gweithiwr sy'n gweithio ar ei ben ei hun fel arfer yn cael ei gynnwys yn un o'r categorïau canlynol:

- Y rhai sy'n gweithio mewn rhan arunig o'r ysgol (dosbarthiadau allanol).
- Y rhai sy'n ymateb i alwad larwm y tu allan i oriau arferol yr ysgol
- Y rhai sy'n gweithio y tu allan i oriau ysgol e.e. yn ystod gwyliau'r ysgol

Ni ddylai staff fod yn gweithio yn yr ysgol cyn 6.30y.b pan fydd yr ysgol yn cael ei agor yn swyddogol gan y gofalydd, nac ar ôl 6y.h pan fydd yr ysgol yn cau am y dydd (ac eithrio mewn amgylchiadau arbennig megis disgo, cyngherddau etc.)

**Diffiniad o weithio ar eich pen eich hun**

Pan fydd staff yn gwneud gwaith (dan do neu yn yr awyr agored) pan na fydd disgwyl yn rhesymol i unrhyw berson arall eu helpu'n syth, os bydd digwyddiad neu argyfwng.

**Asesu risgiau**

Cyfrifoldeb y pennaeth/dirprwy bennaeth yw sicrhau bod Asesiad Risg Iechyd a Diogelwch blynyddol yn cael ei gynnal a bod aelodau o staff yn ymwybodol o gynnwys hwn yn ogystal â risgiau gweithio ar eich pen eich hun. Bydd yr asesiad risg yn ystyried y math o dasgau a wneir, yr amgylchedd, cyfarwyddyd iechyd a diogelwch a'r hyfforddiant a dderbyniwyd a hanes meddygol yr unigolyn.
Bydd peryglon a nodwyd yn cael eu gwerthuso gan y pennaeth/dirprwy bennaeth i nodi pa mor debygol yw hi y bydd y perygl yn achosi niwed. Bydd mesurau'n cael eu cyflwyno os bydd yr asesiad yn dangos bod y rhagofalon presennol yn annigonol er mwyn cael gwared ar y perygl neu ei reoli'n ddigonol. Bydd yr asesiad risg yn destun ar adolygiad i sicrhau ei fod yn berthnasol ac yn gyfredol ar gyfer gweithrediadau'r ysgol.
Bydd contractwyr yn derbyn y cyfle gan y pennaeth/dirprwy bennaeth i gwblhau Asesiad Risg Gweithio ar eich Pen eich Hun fel y bo'n briodol a derbyn yr wybodaeth Iechyd a Diogelwch priodol.

**Dulliau Rheoli**

Dylai staff geisio caniatâd y pennaeth/dirprwy bennaeth i weithio ar eu pennau eu hunain yn yr adeilad y tu allan i oriau ysgol arferol.
Bydd profiad a hyfforddiant yr holl staff a'r gweithgareddau i'w cyflawni yn cael eu hystyried cyn caniatáu gweithio ar eich pen eich hun. Mae'n rhaid i'r pennaeth/dirprwy bennaeth ystyried bod gan weithwyr sy'n gweithio ar eu pennau eu hunain y gallu i ymateb yn gywir mewn argyfwng. Lle bynnag y bo modd, argymhellir bod staff yn gweithio gyda chydweithiwr. Ni ddylai staff fynd ar dir yr ysgol os oes arwyddion bod tresmaswyr, ond fe'u cynghorir i gysylltu â'r heddlu yn syth.
Dylai staff sicrhau bod drws blaen yr ysgol a giât yr iard ar gau wrth weithio ar eu pennau eu hunain a sicrhau bod ardaloedd o'r ysgol nad ydynt yn cael eu defnyddio yn ddiogel. Ni ddylai staff rhoi eu hunain mewn perygl drwy herio tresmaswyr neu fandaliaid ond dylent ffonio'r heddlu am gymorth. Ni ddylai staff weithio ar eu pennau eu hunain os oes ganddynt unrhyw gyflyrau meddygol a allai achosi analluogrwydd neu anymwybyddiaeth.

***Dylai pob aelod o staff sy'n gweithio ar ei ben ei hun sefydlu ei system cyrraedd a gadael y safle ei hun, naill ai gyda'r teulu, ffrindiau neu gydweithwyr. Cynghorir bod gweithiwr sy'n gweithio ar ei ben ei hun yn rhoi rhif ffôn cyswllt (rhif ffôn symudol y pennaeth/dirprwy bennaeth) i berthynas neu ffrind rhag ofn i'r gweithiwr beidio â dychwelyd adref ar yr amser disgwyliedig.***

Nid yw'n ymarferol i'r pennaeth/dirprwy bennaeth ymweld yn achlysurol â phobl sy'n gweithio ar eu pennau eu hunain a'u monitro.
Bydd staff yn derbyn gwybodaeth a/neu hyfforddiant i helpu i sicrhau eu bod yn deall y risgiau sy'n gysylltiedig â gweithio ar eu pennau eu hunain ac er mwyn lleihau'r risgiau hyn. Dylai pob gweithiwr sy'n gweithio ar ei ben ei hun, mewn adeilad sydd fel arall yn wag, ddilyn 'Gweithdrefnau Brys a Thân Defnyddwyr heblaw Personél yr Ysgol' yr ysgol. Mae gan staff gyfrifoldeb dros ymgyfarwyddo â gweithdrefnau diogelwch a lleoliad offer diogelwch yr ysgol.

Dylai contractwyr gael mynediad i becyn cymorth cyntaf eu hunain sy'n addas ar gyfer trin mân anafiadau.
Os bydd staff yn dibynnu ar ffonau symudol, mae'n rhaid iddynt sicrhau bod gan eu rhwydwaith dderbyniad da yn yr ysgol. Er y gall ffonau rhoi sicrwydd ychwanegol, nid ydynt yn darparu amddiffyniad llwyr a dylai staff fod yn ymwybodol o'u diogelwch personol ar bob adeg. Mewn sefyllfa lle bydd dau neu fwy o bobl yn gweithio mewn ardal unig o adeilad sydd fel arall yn wag, dylai gweithwyr hysbysu ei gilydd o'u symudiadau.
Ni ddylai gweithwyr sy'n gweithio ar eu pennau eu hunain gymryd rhan mewn gweithgareddau sy'n cynnwys trafod arian, gweithio ar uchder, unrhyw dasg sydd wedi'i nodi'n risg canolig neu uchel neu sydd o bosib yn beryglus o ystyried lefel eu profiad a natur y dasg. Dylai staff sy'n gweithio ar uchder mewn adeilad unig ddilyn Gweithdrefnau Gweithio ar Uchder Ysgol Gynradd Gymraeg Bryn y Môr.

Atgoffir personél yr ysgol am bwysigrwydd cynnal cydbwysedd gwaith/bywyd iach.

Cyfrifoldeb pob aelod o bersonél yr ysgol a chontractwyr yw glynu wrth y gweithdrefnau gweithio ar eich pen eich hun ac adrodd am unrhyw anawsterau, diffyg ar gyfarpar bryderon iechyd a diogelwch cyffredinol i'r pennaeth/dirprwy bennaeth. Os bydd aelodau o staff yn peidio â dilyn gweithdrefnau a luniwyd i amddiffyn eu diogelwch, gallai hun arwain at fater disgyblu gan y byddant wedi cyfrannu at eu hanaf a gall unrhyw hawliad iawndal neu ddiswyddiad annheg gael ei leihau yn unol â hyn.
Mae'r ysgol yn parchu hawliau'r gweithiwr, o dan Ddeddf Diwygio Undebau Llafur a Hawliau Cyflogaeth 1993 i wrthod gwneud gwaith lle bydd risg difrifol neu bosib o berygl. Gallant hefyd gynghori eraill i wneud yr un peth heb gael eu diswyddo o ganlyniad. Dylai staff fod yn rhagweithiol wrth ddwyn unrhyw agwedd ar risgiau sy'n gysylltiedig â'r gwaith i sylw'r pennaeth/dirprwy bennaeth.
Bydd y pennaeth a/neu Is-bwyllgor Iechyd a Diogelwch y Corff Llywodraethu yn monitro rhoi'r gweithdrefnau hyn ar waith yn rheolaidd. Yn dilyn unrhyw ddigwyddiad, cynhelir ymchwiliad a defnyddir ei ganlyniadau i gyfeirio newid i weithdrefnau ac arferion gweithio.

**Adolygiad**

Mae'r polisi hwn yn cael ei adolygu'n flynyddol gan Is-bwyllgor Iechyd a Diogelwch y Corff Llywodraethu, neu'n gynt os ceir digwyddiadau sy'n gofyn am adolygu gweithdrefnau.

| | Name | Signature | Date |
|---|---|---|---|
| Chair of Governors | Matthew Davies | MDavies | 27/01/23 |
| Headteacher | Angharad Williams | AWilliams | 27/01/23 |

| | |
|---|---|
| Review Date | January 2024 |